Press release | 24.01.2019

# Bydd gadael yr UE yn dinistrio datblygiad rhanbarthol

## Datganiad i'r Wasg gan ASE CRhE Jill Evans (Plaid Cymru)

Yn ôl ymchwil newydd, ceir yr anghydraddoldeb rhanbarthol gwaethaf yn Ewrop rhwng Llundain a Chymru.

Yn ogystal â hynny, fe ganfu'r ymchwil gan CPMR (Cynhadledd Y Rhanbarthau Morol Ymylol) y byddai gan y Deyrnas Gyfunol hawl i €13 biliwn (dros £11 biliwn) o ariannu datblygu rhanbarthol ar gyfer cylch 2021-2027. Rhoddir y nawdd yma i ranbarthau tlotach mewn ymgais i hybu eu perfformiad economaidd a'u datblygiad.

Mae'r cylch ariannu cyfredol yn rhedeg o 2014-2020, a disgwylir i Gymru fod wedi derbyn £2.06 biliwn mewn cymorth o 'r UE. Yn ôl ymchwil CPMR bydd Cymru yn colli tua £2.5 biliwn dros y cylch nesaf fydd yn rhedeg o 2021-2027.

Dywedodd Aelod Seneddol Ewropeaidd Plaid Cymru, **Jill Evans**, bod yr ymchwil yn dangos *"nad oes modd datglymu'r cyswllt a geir rhwng Brexit ac anghydraddoldeb cynyddol"*.

Dengys y ffigurau syfrdanol diweddaraf bod gan ranbarth cyfoethocaf y DG, sef canol Llundain, Gynnyrch Domestig Crynswth (CDC) sydd yn 614% o gymharu â chyfartaledd yr UE, o gymharu â rhanbarth tlotaf y DG, sef Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd â CDC o 68% o gyfartaledd yr UE. Golyga hyn fod yna wahaniaeth o 546% yng nghyfartaleddau CDC cymharol rhwng y ddau ranbarth.

Gwelwyd o'r ymgyrch bod lefelau o wahaniaethau rhanbarthol o fewn y DG yn gwaethygu, gyda Chymru ar waelod y tabl. Byddai Dwyrain Cymru, a ystyriwyd gynt i fod yn 'rhanbarth mwy datblygedig' yn cael ei israddio nawr i 'ardal trawsnewid'.

Dywedodd ASE Plaid Cymru, **Jill Evans**:

*"Dylai'r ffigurau hyn fod yn destun cywilydd i Lywodraeth San Steffan.*

*"Does dim modd datglymu'r cyswllt a geir rhwng Brexit ac anghydraddoldeb cynyddol. Does dim modd dadlau gyda'r ffeithiau.*

*"Mae'r ffigurau hyn yn cadarnhau yn yr un modd a wnaeth y ddegawd ddiwethaf o lymder, taw nid y sawl a greodd yr anrhefn hon fydd yn gorfod ysgwyddo'r baich, ond y cymunedau sydd â'r lleiaf o allu i ymdopi.*

*“Os ydym o ddifrif ynglŷn â dod â’r anghydraddoldeb dychrynllyd hyn i ben, yna gadael yr Undeb Ewropeaidd yw’r peth olaf dylai Cymru ei wneud. Byddai colli ariannu hanfodol yr UE yn drychineb i Gymru a does gen i ddim hyder bydd San Steffan yn rhoi cymorth tebyg i ni..*

*"Mae anghydraddoldeb yn y DG yn uwch nac yn unrhyw aelod wladwriaeth yn yr UE. Tra bo Llundain yn gorboethi, mae economi Cymru yn gwanhau.*

*"Ddydd ar ôl dydd, daw effeithiau ofnadwy Brexit ar Gymru yn fwy eglur a chaiff celwyddau ymgyrchwyr dros Brexit eu dinoethi. Mae Pleidlais y Bobl, gyda’r opsiwn o aros yn yr UE yn hanfodol er lles ein democratiaeth, cymdeithas ac economy.”*

Nodiadau

Gelllir dod o hyd i’r ymchwil llawn yma [https://cpmr.org/cohesion/cpmr-analysis-uk-to-lose-e13bn-regional-funding-post-brexit/20525/](https://cpmr.org/cohesion/cpmr-analysis-uk-to-lose-e13bn-regional-funding-post-brexit/20525/)

**Recommended**

News



[About the EFA Group]()

16.07.2024

Press release



[European Free Alliance Group Congratulates French MPs …]

08.07.2024

Press release



[Diana Riba i Giner Elected as President of the EFA Gro…]

18.06.2024

Press release



EFA Group stament on the passing of Josep Maria Terric…

17.04.2024

**Responsible MEPs**



Jill Evans

Member

**Please share**

- E-Mail